# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y MESUR ADDYSG

### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

“Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy’n ymwneud ag **Adran 409 o Ddeddf Addysg 1996, Taliadau a Ganiateir, y Panel Apêl Annibynnol, Ysgolion Byrddio a Cholegau a’r Asiantaeth Dysgu ar gyfer Pobl Ifanc (YPLA)** a geir yn y Mesur Seneddol ar Addysg, fel y’i cyflwynwyd i Dŷ’r Cyffredin ar 26 Ionawr 2011, i’r graddau y mae’r darpariaethau’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

### Y Cefndir

1. Cafodd y Cynnig uchod ei gyflwyno gan Leighton Andrews, Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Memorandwm hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 26.2. Mae Rheol Sefydlog 26 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Mesur gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu os yw'n dwyn effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd y Mesur Addysg ("y Mesur Seneddol”) ei gyflwyno ar 26 Ionawr 2011. Gellir gweld y Mesur yn:

http://services.parliament.uk/bills/2010-11/localism.html

### Crynodeb o'r Mesur Seneddol a'i Amcanion Polisi

3. Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys darpariaethau ar ystod o feysydd polisi, ac mae amryw o'i ddarpariaethau nad ydynt yn gymwys i Gymru. Prif ddiben y Mesur Seneddol yw creu system addysg sy'n cyflawni ar ran pob plentyn, o feithrin gallu sylfaenol ym maes llythrennedd i sicrhau bod myfyrwyr yn ennill cymwysterau a fydd yn eu galluogi i barhau â'u haddysg, neu a fydd yn eu paratoi ar gyfer byd gwaith. Bydd y Mesur yn bwrw ati i wireddu ymrwymiadau'r Papur Gwyn 'The Importance of Teaching' a strategaeth yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, 'Skills for Sustainable Growth and Further Education'. Bydd y Mesur Seneddol hefyd yn cynnwys dwy elfen sy’n ymwneud â Chyllido Addysg Uwch.

**Y Darpariaethau yn y Mesur Seneddol y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

4. Mae'r Mesur Seneddol yn gwneud darpariaeth sydd yr un mor gymwys i Gymru a Lloegr mewn perthynas â darparu gwybodaeth ynghylch ysgolion ac addysg a ariennir, heblaw yn yr ysgol, sef yn gryno:

5. Bydd **Cymal 44** yn adfer, i Gymru, adran 409 a pharagraff 6(3) a (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Yn ystod hynt Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 drwy Senedd y DU, cafodd darpariaethau eu cynnwys a oedd yn diddymu adran 409 a pharagraff 6(3) a (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Cafodd y diddymiad hwn ei gymhwyso, drwy amryfusedd, i Gymru yn hytrach nag i Loegr yn unig.

6. Mae adran 409 o Ddeddf Addysg 1996 yn ymwneud â phwerau i ddarparu bod awdurdod lleol yn gwneud trefniadau i ystyried cwynion mewn perthynas â materion fel y Cwricwlwm Cenedlaethol, addoli ar y cyd, addysg grefyddol a'r cwricwlwm yn gyffredinol. Hyd yma, nid yw'r darpariaethau hyn wedi eu diddymu, felly ni wnaed unrhyw newidiadau ymarferol.

7. Mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Materion canlynol:

- Mater 5.2A, Rhedeg a llywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, gan gynnwys dyrannu swyddogaethau, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag ysgolion o'r fath.
- Mater 5.4, Darpariaeth am y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.

8. Bydd **Cymal 47** yn diwygio adran 456 o Ddeddf Addysg 1996 at ddibenion pennu'r taliadau a ganiateir, gan egluro ymhellach drefniadau rheoleiddio'r taliadau a ganiateir o dan adran 455 o'r Ddeddf hon.

9. Mae adran 455 yn caniatáu i ysgolion godi tâl am wasanaethau heblaw addysg ee costau byrddio disgybl ar daith breswyl. Byddai'r diwygiad arfaethedig yn egluro ymhellach bod y taliadau yn gallu cynnwys y costau y gellir eu priodoli i ddarparu a chynnal a chadw llety, ee cynnal a chadw, gwresogi a goleuo, sy'n codi mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau dewisol ychwanegol hyn, y gellir codi tâl amdanynt.

10. Mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Materion canlynol:

- Mater 5.2A, Rhedeg a llywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, gan gynnwys dyrannu swyddogaethau, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag ysgolion o'r fath.

- Mater 5.4, Darpariaeth am y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.

- Mater 5.8, Darpariaeth am ddarparu gwasanaethau a fwriedir i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl -
  (a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,
  (b) i gymryd mantais o gyfleoedd i gael cyflogaeth, neu
  (c) i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymuned.

- Mater 5.14, Darparu adnoddau ariannol ar gyfer ac mewn cysylltiad ag -
  (a) addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach;
  (b) addysg ôl-16 neu hyfforddiant a ddarperir mewn dull heblaw gan y cyfryw sefydliadau;
  c) gwneud ymchwil sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b).

- Mater 5.16, Darparu cyngor a gwybodaeth mewn cysylltiad ag -
  (a) addysg neu hyfforddiant cyn-16;
  (b) addysg neu hyfforddiant ôl-16;
  (c) hyfforddiant athrawon a chynorthwywyr addysgu arbenigol i ysgolion;
  (ch) gwasanaethau o'r math a grybwyllwyd ym mater 5.8;
  a chynnal astudiaethau mewn perthynas â hynny.

11. **Cymal 42** - Bydd y cynigion yn darparu bod y disgyblion sydd wedi'u gwahardd o ysgolion yn Lloegr yn cael y cyfle i gyflwyno eu hachos gerbron panel adolygu. Fodd bynnag, ni fydd gan rieni a disgyblion yn Lloegr yr opsiwn mwyach i wneud cais i Banel Apelio Annibynnol a gyfansoddwyd o dan adran 52 o Ddeddf Addysg 2002. Bydd y ddarpariaeth hon yn gymwys i Loegr yn unig, felly bydd y Mesur Seneddol yn diwygio adran 52 o Ddeddf Addysg 2002, fel ei fod yn gymwys i Gymru yn unig. Bydd y darpariaethau hyn yn arwain at ddiwygiadau canlyniadol y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

12. Bydd Atodlen 1 i'r Mesur Seneddol hwn yn diwygio Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (disgyblion ag anableddau: gorfodi). Bydd y diwygiad yn sicrhau eglurdeb ynghylch hawliau i apelio, i gynnwys unrhyw berson a all apelio o dan y trefniadau yn adran 52(3) o Ddeddf Addysg 2002, ac nid apêl gan riant y person yn unig.

13. Mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Materion canlynol:

- Mater 5.5 Darpariaeth am fynychu'r ysgol, ymddygiad disgyblion yn yr ysgol, disgyblaeth ysgol a gwahardd disgyblion o'r ysgol (gan gynnwys dyletswyddau rhieni mewn cysylltiad â'r materion hynny).

- Mater 5.17, Addysg a hyfforddiant ar gyfer -
  (a) personau sy'n cael mwy o anhawster i ddysgu na mwyafrif y personau o'r un oed â'r personau hynny;

(b) personau sydd â’r canlynol neu sydd wedi cael y canlynol -
(i) nam corfforol neu feddyliol, neu
(ii) cyflwr iechyd sy’n gwaethygu (megis canser, sglerosis ymledol neu haint HIV) pan fydd mewn cyfnod nad yw’n ymwneud â nam corfforol neu feddyliol.

14. Bydd **Cymal 42** yn darparu ar gyfer newidiadau deddfwriaethol i eiriad presennol adrannau 87-87D o Ddeddf Plant 1989 drwy gyfrwng Mesur Addysg. Y prif amcan yw egluro ymhellach ddibenion adrannau 87-87D; mae ysgol neu goleg yn darparu llety i blentyn os yw'n darparu'r llety ar ei eiddo ei hun neu’n trefnu i'r llety hwnnw gael ei ddarparu yn rhywle arall.

15. I fynd i'r afael â bwlch posibl lle mae ysgolion yn trefnu llety amgen i ddisgyblion nad yw, o bosibl, wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol ac nad yw felly yn destun arolygiad, bydd amryw o ddiwygiadau i unioni'r sefyllfa.

16. Mae'r swyddogaethau a ragnodir gan adrannau 87 - 87D o Ddeddf Plant 1989 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y materion canlynol.

- Mater 15.6 Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc. Mae'r mater hwn yn gymwys i gydweithredu gan, a threfniadau sy’n cael eu gwneud gan y canlynol -
  (a) awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r meysydd yn y Rhan hon;
  (b) awdurdodau heddlu a phrif swyddogion yr heddlu ar gyfer ardaloedd yr heddlu yng Nghymru;
  (c) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;
  (d) byrddau prawf lleol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;
  (e) yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Tramgwyddwyr 2007, neu unrhyw ddarparydd gwasanaethau prawf o dan drefniadau a wnaed o dan adran 3(2) o'r Ddeddf honno;
  (f) timau troseddau ieuenctid ar gyfer ardaloedd yng Nghymru;
  (g) llywodraethwyr carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchardai, sefydliadau tramgwyddwyr ifanc neu ganolfannau hyfforddi diogel sydd wedi'u contractio allan neu rannau o sefydliadau o'r fath, a'r rhannau hynny wedi'u contractio allan, eu cyfarwyddwyr);
  (h) personau ac eithrio awdurdodau cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy’n gysylltiedig â llesiant plant neu bersonau ifanc.

17. Bydd **Cymal 62** yn diddymu adrannau 60 i 80 o, ac Atodlen 3 i, Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 gan ddiddymu'r Asiantaeth Dysgu ar gyfer Pobl Ifanc (YPLA). Cafodd yr YPLA ei lansio ym mis Ebrill 2010 i hyrwyddo addysg a hyfforddiant i bobl ifanc yn Lloegr. Maent yn gwneud hyn drwy ddarparu cymorth ariannol i ddysgwyr ifanc, gan ariannu academïau ar gyfer eu holl ddarpariaeth a chefnogi awdurdodau lleol i gomisiynu addysg a hyfforddiant priodol ar gyfer pob person ifanc rhwng 16

a 19 mlwydd oed. Nid yw'r YPLA yn darparu unrhyw wasanaethau yng Nghymru.

18. Mae swyddogaethau cyffredinol yr YPLA yn berthnasol i amryw o faterion ym Maes 5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn bennaf Materion 5.8, 5.11, 5.13, 5.16 a 5.18. Fodd bynnag, y darpariaethau cydweithredol yn adrannau 68 a 69 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu sy'n berthnasol yma. O ddiddymu'r YPLA, bydd hi'n ofynnol i'r Adran Addysg yn Lloegr ddiddymu adrannau 68 a 69 o'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu. O dan adran 68 o'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu, caiff yr YPLA wneud trefniadau gyda Gweinidogion Cymru i'r YPLA ddarparu gwasanaethau y mae eu hangen ar Weinidogion Cymru er mwyn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant. Mae adran 69 yn darparu y caiff yr YPLA fod yn rhan o drefniadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 (trefniadau ar gyfer cynorthwyo personau i ddewis cyflogaeth, hyfforddi ar ei chyfer, dod o hyd iddi a'i chadw).

19. Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy gyflwyno Mesur, wneud darpariaeth i ddiddymu adrannau 68 a 69 o'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu i'r graddau bod yr adrannau hynny yn galluogi'r YPLA i wneud trefniadau gyda Gweinidogion Cymru i'r YPLA ddarparu gwasanaethau y mae eu hangen ar Weinidogion Cymru er mwyn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant neu i fod yn rhan o drefniadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973.

20. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan gyfuniad o'r Materion canlynol:

- Mater 5.8, Darpariaeth am ddarparu gwasanaethau a fwriedir i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl -
  (a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,
  (b) i gymryd mantais o gyfleoedd i gael cyflogaeth, neu
  (c) i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymuned.

- Mater 5.11, Darparu ar gyfer ac mewn cysylltiad â sicrhau darpariaeth cyfleusterau ar gyfer addysg ôl-16 neu hyfforddiant.

- Mater 5.13, Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sicrhau cydlafurio -
  (a) rhwng cyrff sy'n rhedeg sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach, neu
  (b) rhwng un neu ragor o'r cyfryw gyrff a phersonau neu gyrff eraill ac iddynt swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant yng Nghymru,
  gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sefydlu cyrff at ddiben cyflawni swyddogaethau ar ran un neu ragor o bersonau neu gyrff sydd â rhan mewn trefniadau cydlafurio.

- Mater 5.16, Darparu cyngor a gwybodaeth mewn cysylltiad ag -

(a) addysg neu hyfforddiant cyn-16;
(b) addysg neu hyfforddiant ôl-16;
(c) hyfforddiant athrawon a chynorthwywyr addysgu arbenigol ar gyfer ysgolion;
(d) gwasanaethau o'r mathau a grybwyllir ym mater 5.8;
a chynnal astudiaethau mewn perthynas â hynny.

- Mater 5.18, Darparu unrhyw un o'r canlynol i blant neu bersonau ifanc -
  (a) cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol neu gorfforol;
  (b) gweithgareddau addysgol.
  Yn y mater hwn mae i "plant" (*"children"*) a "personau ifanc" ("*young persons"*) yr un ystyr ag sydd iddynt ym maes 15.
  Dehongli'r maes hwn
  Yn y maes hwn -
  ystyr "addysg feithrin (*"nursery education"*) yw addysg sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol
  ystyr "addysg ôl-16" (*"post-16 education"*) yw -
  (a) addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas o ofynion personau sydd uwchlaw oedran ysgol gorfodol, a
  (b) gweithgaredd amser hamdden wedi ei drefnu sy'n gysylltiedig â'r cyfryw addysg;
  ystyr "hyfforddiant ôl-16" (*"post-16 training*") yw -
  (a) addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas o ofynion personau sydd uwchlaw oedran ysgol gorfodol, a
  (b) gweithgaredd amser hamdden wedi ei drefnu sy'n gysylltiedig â'r cyfryw hyfforddiant.
  ystyr "addysg neu hyfforddiant cyn-16" (*"pre-16 education or training"*) yw addysg neu hyfforddiant sy'n addas at ofynion personau sydd o oedran ysgol gorfodol neu lai
  ystyr "sefydliad addysgol annibynnol perthnasol" (*"relevant independent educational institution"*) yw sefydliad heblaw ysgol sydd -
  (a) yn darparu addysg ran-amser i un neu fwy o bersonau o oedran ysgol gorfodol ("myfyrwyr rhan-amser") p'un a yw hefyd yn darparu addysg amser-llawn i unrhyw berson neu beidio, a
  (b) a fyddai'n ysgol annibynnol oni bai am y ffaith bod yr addysg a ddarperir ar gyfer y myfyriwr neu'r myfyrwyr rhan-amser yn rhan-amser yn hytrach nag amser-llawn.
  At ddibenion y diffiniad uchod o "sefydliad addysgol annibynnol perthnasol" (*"relevant independent educational institution"*), mae sefydliad yn darparu addysg "ran-amser" ar gyfer person -
  (a) os yw'n darparu addysg ar gyfer y person, a
  (b) os nad yw'r addysg yn cyfateb i addysg amser-llawn.

**Manteision defnyddio'r Mesur Seneddol hwn**

21. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Mesur hwn gan Senedd y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, a chan y bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno'r ddeddfwriaeth briodol yn unol â

blaenoriaethau Cymru, a’r ystyriaethau sydd o bwys i Gymru.

22. Pe byddai’r diwygiadau uchod yn gymwys i Loegr yn unig, byddai Gweinidogion Cymru o dan anfantais. Mae Cymalau 42 a 47 yn darparu eglurhad pwysig mewn perthynas â llety ysgolion byrddio a thaliadau a ganiateir. Byddai’r ffaith nad oes dull cyson o weithredu ar gyfer ysgolion yn y meysydd hyn yn cael effaith andwyol yng Nghymru.

23. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gan hynny, wedi cael ei osod, a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cael ei gyflwyno, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

**Goblygiadau Ariannol**

24. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, deddfwriaeth neu ganllawiau canlyniadol a fydd yn deillio o benderfyniad yn y dyfodol i arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau perthnasol yn cael eu hystyried yn llawn o ran pa mor fforddiadwy ydynt ac yn destun Asesiad Effaith Rheoliadol, lle bo hynny'n briodol, a fyddai'n cynnwys dadansoddiad o gostau a buddiannau.

Leighton Andrews AC.
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes